



Cyfarfod

PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD IAU, 14EG IONAWR, 2021

NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.00YB

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol - Zoom

Pwynt Cyswllt

Einir Rhian Davies

01286 679868

einirrhiandavies@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 7/01/21)

PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Alan Jones Evans
Linda Ann Jones
Dafydd Owen
Linda Morgan

Annwen Daniels
Gareth Tudor Morris Jones
Olaf Cai Larsen
Berwyn Parry Jones
Rheinallt Puw

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Richard Medwyn Hughes
Beth Lawton
Angela Russell

Eryl Jones-Williams
Dewi Wyn Roberts

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Anwen J. Davies

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

Y Blaid Genedlaethol (1)

Y Cynghorydd Peter Read

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelodau Eraill a Wahoddwyd

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd, 2020 fel rhai cywir.

5. GWASANAETH THERAPI GALWEDIGAETHOL, 9 - 18 GWASANAETHAU CYMDEITHASOL GWYNEDD

Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Dafydd Meurig

Ystyried adroddiad ar yr uchod (ynghlwm).

PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 26/11/2020

Yn bresennol: Y Cynghorydd Dewi Roberts (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Beth Lawton (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr: Annwen Daniels, Anwen J Davies, R. Medwyn Hughes, Berwyn Parry Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Eryl Jones-Williams, Olaf Cai Larsen, Dafydd Owen, Rheinallt Puw, Angela Russell

Aelod Ex-officio: Y Cynghorydd Edgar W Owen

Swyddogion yn bresennol: Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth ac Iaith) ac Einir Rh Davies (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Yn bresennol ar gyfer eitem 7:

Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a Pherthynas gyda'r Gwasanaeth Iechyd), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) a Mari W Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant)

Yn bresennol ar gyfer eitem 8:

Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc) a Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)

1. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Dewi W Roberts yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am 2020/21.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Beth Lawton yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor hwn am 2020/21.

3 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Menna Baines, Linda A Jones a Linda Morgan

4. DATGAN BUDDIANT

Derbyniwyd y datganiadau o fuddiant personol fel a ganlyn :

Cyng. R Medwyn Hughes – Aelod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cyng. Eryl Jones-Williams – Perthynas yn defnyddio cadair olwyn
Cyng. Rheinallt Puw – Cyflogedig gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cyng. Dewi W Roberts – Aelod o'r Gweithgor
Cyng. Angela Russell – Aelod o'r Gweithgor

5. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

6. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 30 Ionawr, 2020 fel rhai cywir.

7. ADRODDIAD CYNNYDD AR ARGYMHELLION YMCHWILIAD CRAFFU : CEFNOGI POBL ANABL GWYNEDD (GWASANAETH CADEIRIAU OLWYN)

Diolchwyd am yr adroddiad cynnydd, yn dilyn cyflwyno y mater i'r Pwyllgor Craffu yn Medi 2019. Gofynnwyd am sylwadau ar y gweithredoedd yn sgil yr argymhellion, a nodwyd fel a ganlyn :

Cadarnhawyd bod yr Aelod Cabinet wedi ysgrifennu at Vaughan Gething yn 2019 yn tynnu sylw at yr adroddiad, ond nododd nad oedd ymateb wedi dod i law, ond teimlwyd mai materion ar gyfer gweithrediad lleol oedd yn codi o'r argymhellion. Nododd bod y gwaith wedi amlygu y cydweithio rhwng y Cyngor a'r Gwasanaeth Iechyd a theimlwyd fod nifer o argymhellion yr Adroddiad ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd. Yn sgil hyn, nodwyd pwysigrwydd cadw y cyfathrebu yn fyw gyda'r Gwasanaeth Iechyd. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant bod ymateb gan y Gwasanaeth Iechyd i'r argymhelliad yn yr adroddiad.

Adroddwyd ar faterion penodol i'r Gwasanaeth Iechyd isod, gan ddangos symudiad yn y materion, ond wrth gwrs mae cynnydd wedi arafu oherwydd COVID.

Cadarnhawyd nad yw'r Gweithgor Partneriaeth Ranbarthol wedi ei sefydlu eto, ond fod trefniadau lleol wedi eu sefydlu rhwng y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd a Chyngor Gwynedd i wella cydweithio.

Mae penodiad Arweinydd Therapi Galwedigaethol ar gyfer Cyngor Gwynedd wedi hwyluso cyfathrebu a chydweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd.

Mae dogfennau cyfeirio electroneg yn cael eu treialu gan y Gwasanaeth Iechyd ar hyn o bryd, ac mae bwriad cyflwyno trefn gyfeirio electroneg yn fuan.

Mae hyfforddiant ar y cyd yn digwydd rhwng y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd a Thimau Adnodd Cymunedol Gwynedd.

Nodwyd pryder bod arafwch o ran asesiad amgylchedd y cartref ynghyd a phryder bod y therapyddion galwedigaethol heb hyfforddiant a chwestiynwyd tybed a oedd hyn wedi ei ddatrys? Cadarnhawyd mai cyfrifoldeb therapyddion galwedigaethol y Cyngor ydy cynnal asesiad amgylchedd yn y cartref, a bod cyfrifoldeb ar therapydd galwedigaethol y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd i gwblhau asesiadau ar gyfer offer arbenigol. Nid oes datblygiadau pellach ynghylch cytundeb gan y Gwasanaeth Iechyd i Therapyddion Galwedigaethol o Awdurdodau Lleol dderbyn yr hyfforddiant arbenigol. Serch hyn, mae cynnydd wedi bod yn yr ymweliadau ar y cyd rhwng therapyddion yr Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd sydd yn gwella cydweithio ac

yn lleihau oedi mewn sicrhau offer addas yn amserol. Cadarnhawyd y byddai unrhyw ddatblygiadau yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor.

Cadarnhawyd bod aelodau y gweithgor wedi siarad gyda rhai cleifion am yr effaith/diffygion a chafwyd cadarnhad bod y Gweithgor wedi gallu gwella y gwasanaeth a bod y Bwrdd Iechyd wedi symud ymlaen, a bod llawer wedi newid, er gwell, tra roedd yr ymchwiliad ar y gweill.

Nodwyd balchder wrth ddarllen yr argymhellion ond nodwyd y gwahaniaeth sylweddol rhwng Gogledd a De Cymru. Nodwyd ei bod yn bwysig peidio ag anghofio yr argymhellion, dal i dderbyn diweddariadau a dal i wella er mwyn symud ymlaen. Cadarnhawyd bod yr asesiadau yn well yn y De a bod lle i wella y Gwasanaeth yn y Gogledd a bo hwn angen sylw y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Iechyd.

Cwestiynwyd y cyfarpar oedd yn cael ei roi allan i'r cleifion a nodwyd nad oedd wastad yn addas a chwestiynwyd tybed a yw y broblem honno wedi ei datrys? Nododd ei bod yn bwysig ar gyfer lles unigolion a chadarnhaodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant, o ran yr unigolion sydd y dod drwy Wasanaeth Cymdeithasol y Cyngor, nad oedd wedi derbyn pryderon ynglŷn ag addasrwydd offer sydd wedi ei ddarparu. Rhannwyd yr enghraifft o rai unigolion angen cadair arbennig, a heb y gadair arbennig eu bod yn dirywio a phroblemau gyda storfa y gwasanaeth iechyd.

Atgyfnerthwyd neges gan y Pennaeth Gwasanaeth a'r Uwch Reolwr Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant oedd yn cydymdeimlo gyda y neges, a nododd y byddai yn hoffi rhoi y sicrwydd i'r Cyngorydd, ond cwestiwn i'r Gwasanaeth Iechyd ydoedd a tybed y gellid ysgrifennu at Iechyd? Cytunwyd bod y berthynas gyda y Gwasanaeth Iechyd wedi gwella yn arw, bod llawer o symud a bod syniadau i'r dyfodol a chadarnhawyd y byddai sylwadau y Cyngorydd yn cael sylw.

Diolchwyd i'r Gweithgor a'r swyddogion am lynu at bolisi Cyngor Gwynedd o roi pobl yn gyntaf.

PENDERFYNWYD derbyn cynnwys yr adroddiad a'r dogfennau atodol gan nodi y sylwadau. Gofynnwyd am sicrwydd bod y Gwasanaeth yn cadw golwg ar yr hyn sydd yn mynd ymlaen.

8. PLANT A PHOBL IFANC MEWN GOFAL

Nodwyd bod yr adroddiad yn cael ei chyflwyno gyda balchder yn y staff a'r rhieni maeth. Adroddwyd ar sut roedd y Gwasanaeth wedi ymateb i barhau gyda y Gwasanaeth yn y cyfnod anodd hwn ac wedi ymateb i'r gofyn yn ystod y cyfnod clo.

Cadarnhawyd bod 294 o blant mewn gofal ar ddiwedd Medi 2020, ac mewn gofal am resymau amrywiol. Nodwyd mai y dewis olaf un yw gosod plentyn mewn gofal, ond weithiau nid oes dewis.

Cyfeiriwyd at y ffigyrau o 27 plentyn mewn gofal am y tro cyntaf yn ystod y cyfnod Ebrill i Fedi - hynny yw, nad oeddynt yn wybyddus i'r Cyngor cyn y cyfnod hwn, tra bo derbyn cyfeiriadau dienw wedi cynyddu i 71%. Ar y llaw arall, cadarnhawyd bod 24 wedi gadael y gwasanaeth yn ystod y cyfnod hefyd. Cadarnhawyd o ran y plant sydd yn destun Gorchymyn Llys bod cydweithio wedi bod gyda rhieni.

Cyfeiriwyd at yr atodiad sydd yn manylu o ran niferoedd a lleoliadau, gan nodi bod rhai plant adref gyda theulu neu aelodau estynedig y teulu.

O ran yr adnoddau maethu, nodwyd bod 72 o leoliadau wedi eu cofrestru a oedd gyda'r capasiti i gynnig lleoliadau i 139 o blant, ynghyd a 60 lleoliad maeth arall drwy deulu estynedig. Cadarnhawyd bod llefydd ychwanegol wedi eu cofrestru yn ystod y cyfnod, a bod y ffordd o gynnal cyfarfodydd wedi newid a bod ymgyrch recriwtio wedi cymryd lle.

Cadarnhawyd ei bod yn anodd cael lleoliadau i ganran fach, sydd yn gyfrifoldeb y Cyngor, ac mai yr opsiwn olaf un yw eu gosod mewn lleoliadau anrheoledig. Cadarnhawyd, yn y 5 mlynedd diwethaf, bod 7 trefniant o'r math wedi cymryd lle am gyfnod o 3 wythnos ar yr hiraf.

Cyfeiriwyd at bolisi Llywodraeth Cymru i leihau nifer y plant mewn gofal. Atgoffwyd y Pwyllgor bod y cyfeiriad polisi yn cael y flaenoriaeth uchaf rhai blynyddoedd yn ôl a hysbyswyd y Llywodraeth bryd hynny na fyddai Gwynedd yn gosod targed, ac osgoi targedau a fu : nid oedd hwn yn safbwynt hawdd.

Nodwyd y daeth Covid a heriau newydd a bod y gweithlu wedi bod yn anhygoel wrth newid yn sydyn, ac wedi ymdrin â materion megis:

Parhau i wneud Asesiadau
Parhau i gadw cyswllt gyda rhieni
Cau Hafan y Sêr
Cydweithio gyda yr Adran Addysg
Adolygiadau Rhithiol ar gyfer Plant mewn Gofal
Sefydlu Llinell Gymorth
Cymorth i gael mynediad at ddeunydd megis ffisig a bwyd i fabanod

Yn ddiweddarach ymdriniwyd â materion megis
Ail agor Hafan y Sêr
Ail gychwyn trefniadau cyswllt plant a rhieni (mewn PPE wrth gwrs)
Parhau i weithio o adref

Nodwyd pryder am staff a nodwyd bod y Gwasanaeth yn gweithredu eu cyfrifoldebau yn llawn, ond mewn ffordd wahanol.

O ran y staff nodwyd bod
Trefniadau lechyd a Diogelwch yn dynn
Rheolwyr yn cysylltu yn gyson
Y tîm rheoli a rheolwyr wedi cael tri sesiwn, gan roi cyfle i adrodd ar heriau a phryderon

Diolchwyd am yr adroddiad helaeth a chwestiynwyd fel a ganlyn :

O ran y pwynt 'Ar adegau mae'r gallu i ganfod lleoliad preswyl addas yn amhosibl' cwestiynwyd onid yw hyn yn risg mawr i'r staff? Cwestiynwyd hefyd sut fyddai modd lleihau y risg i'r staff?

Nodwyd bod rhai unigolion angen ateb eu hanghenion arbennig. Yn anffodus mae darparwyr preifat yn gallu nid yn unig enwi eu pris ond hefyd nid yw lleoliadau wastad ar gael. Cadarnhawyd fod y datrysiad yn un anodd iawn. Nodwyd pan fo y sefyllfa yn codi nad oedd byth brinder staff sydd yn fodlon gwirfoddoli i wneud y gwaith. Cwestiynwyd, os yw hon yn broblem genedlaethol oni ddylid herio y Llywodraeth, gan dderbyn na fyddai yn hawdd? Tybed a oes ffrwd gwaith yma i edrych ar y mater a

symud ymlaen arno yn genedlaethol er mai hen broblem yw y mater? Roedd y Pwyllgor yn falch bod y Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn Cadeirio y Grŵp trafod ar hyn.

Nodwyd pryder am y datganiad ynglŷn â rhewi cyflogau yn enwedig gan fo staff yn gwneud eu gorau. Nodwyd onid yw ffigyrau gofal uchel yn dangos fod y Gwasanaeth yn gofalu am blant a nodwyd balchder bod y plant mewn dwylo da.

O ran targed y Llywodraeth o ran lleihau plant mewn gofal, cefnogwyd safiad Gwynedd o beidio â gosod canran %, gan gadarnhau na fyddai mwy mewn gofal na fyddai wirioneddol angen bod. Ychwanegwyd at hyn gan nodi na dim gosod targed yw yr ateb ond gwella, a chadarnhawyd bod angen dangos yn glir a rheolaidd y gwelliannau a'r rhwystrau sydd wedi eu goresgyn.

Cwestiynwyd y ffaith bod mwy o blant wedi dod i ofal rŵan drwy alwadau ffôn gan unigolion a chwestiynwyd pam bo hyn? Mewn ymateb, nodwyd efallai mai pryder ydoedd gan unigolion, pobl yn gweithio o adref ac yn gweld neu glywed mwy neu fwy o lygaid yn ein cymunedau. Nodwyd bod y Gwasanaeth yn parhau i weld y cyfeiriadau dienw.

Diolchodd yr Aelod Cabinet am y gwaith, a cyfeiriodd at yr heriau, gan gynnwys: targed y llywodraeth a'r ffaith bod Gwynedd wedi dod dan bwysau ond yn parhau i ymrwngthod i osod targed.

Archwiliad Arolygaeth Gofal ar y gweill, sydd wedi dod ar amser anodd

Materion llesiant staff

Heriau ariannol, ble mae pob carreg yn cael ei throi i weld a oes modd gwneud arbediad er mai diogelwch yw y prif beth

Efallai y byddai yn ddiddorol a defnyddiol cyflwyno astudiaeth achos unigolyn yn y drefn i'r Pwyllgor yn y dyfodol

Diolchwyd i'r Pennaeth a'r Adran am y ffordd roeddynt wedi ymateb i'r sefyllfa.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi y sylwadau.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 11.45

CADEIRYDD

Eitem 5

Cyfarfod	Pwyllgor Craffu Gofal
Dyddiad	14 Ionawr 2021
Teitl	Adroddiad ar Wasanaeth Therapi Galwedigaethol (ThG), Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd.
Awdur	Matthew Hawes, Arweinydd Therapi Galwedigaethol
Aelod	Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant

1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cynnig trosolwg o gyfraniad Therapyddion Galwedigaethol yng Nghyngor Gwynedd.

2. Cyflwyniad

2.1 Pwrpas y Timau Adnoddau Cymunedol yw "Helpwch fi i fyw fy mywyd fel yr hoffwn i ei fyw!" Mae gan Therapi Galwedigaethol rôl bwysig iawn yn helpu trigolion Gwynedd i gyflawni eu deilliannau personol drwy hyrwyddo annibyniaeth.

2.2 (ThG) yw asesu a thrin cyflyrau corfforol a seiciatrig gan ddefnyddio gweithgarwch penodol a phwrpasol er mwyn atal anabledd a hyrwyddo gweithrediad annibynnol ym mhob agwedd o fywyd bob dydd. Mae ThG yn ymarfer sy'n canolbwyntio ar y cleient sy'n rhoi gwerth ar y cynnydd a wneir tuag at nodau'r cleient. Mae hon yn agwedd sylfaenol i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, sy'n cyflawni "Beth sy'n Bwysig" yn y pen draw. Rydym yn gweithio gyda chleientiaid o bob grŵp oedran o enedigaeth hyd at farwolaeth a chyda phob math o gyflyrau ac amhariadau.

3. Trosolwg

3.1 Cafodd Arweinydd ThG ei benodi ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd ym mis Chwefror 2020, yn union cyn y pandemig COVID-19 presennol. Mae'r gwasanaeth eisoes wedi cael ei drawsnewid yn sylweddol. Ymddeolodd dau uwch aelod uchel eu parch o'r Tîm ThG yn ystod y 12 mis diwethaf. Er bod hyn wedi bod yn anodd, mae'r gwasanaeth yn symud ymlaen gydag ymagwedd fodern, gan sicrhau deilliannau o ansawdd uchel i unigolion, gwneud y mwyaf o'u hannibyniaeth a hefyd yn lleihau'r costau sylweddol a chynyddol ar becynnau gofal. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, mae angen i ni fod yn llawer mwy rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol.

- 3.2 Bu'r gwasanaeth hefyd yn llwyddiannus yn recriwtio 0.5 swydd i'r Adran Plant i gefnogi 1 ThG Pediatrig ar gyfer Awdurdod Lleol Gwynedd gyfan. Bydd hyn yn arwain at welliant sylweddol yn y maes hwn.
- 3.3 ThG yw un o'r unig Broffesiynau sy'n gysylltiedig ag Iechyd; sy'n cael ei gyflogi gan yr Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd hefyd. Gall y rolau rhwng y ddau sefydliad fod yn ddryslyd ac aneglur ar adegau. Y flaenoriaeth yw gweithio mewn partneriaeth gyda chydweithwyr yn Iechyd i gryfhau cydweithio, cael gwared ar rwystrau hanesyddol a chael dealltwriaeth gliriach o'r rolau o fewn y gymuned, a sut allwn gydweithio orau wrth symud ymlaen. Mae llwybr cyfeirio newydd wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â chydweithwyr Iechyd sydd yn nodi pa sefydliad fydd yn gyfrifol am yr amrywiol gyfeiriadau. Rydym hefyd wedi helpu i lenwi bylchau rhwng gwasanaethau yn ystod y pandemig i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaeth. Mae mwy o waith i'w wneud ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gyda'r gwasanaeth Iechyd ac i ddatblygu gwasanaeth ThG integredig.
- 3.4 Yn y gorffennol, bu recriwtio Therapyddion Galwedigaethol yn her fawr i Wynedd. Bellach, mae'r gwasanaeth ThG o fewn Awdurdod Lleol Gwynedd wedi'i staffio'n llawn a bum yn llwyddiannus yn canfod staff ar gyfer absenoldeb mamolaeth. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn rhagweithiol yn annog lleoliadau myfyrwyr ar y cyd â Phrifysgol Glyndŵr, gan fod hyn nid yn unig yn ymarfer da, ond mae hefyd yn helpu i recriwtio staff cymwys. Bellach, mae gennym Therapyddion Galwedigaethol sydd â diddordeb mewn ymuno â'n tîm.
- 3.5 Ar hyn o bryd, tua 3% o weithlu Awdurdod Lleol Gwynedd, at ei gilydd, yw Therapyddion Galwedigaethol. Fodd bynnag, mae ThG yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda thua 35-40% o'r holl gyfeiriadau i'r awdurdod lleol. (Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol)
- 3.6 Rydym yn rhagweld cynnydd o 15% o ran y gyfradd cyfeirio am ymyrraeth gan ThG gan yr awdurdod lleol yn 2021-2022. Y prif reswm am hyn yw colli hyder / symudedd a datgyflyru gan unigolion bregus sydd wedi bod yn gwarchod a ddim yn gwneud ymarfer corff, nac yn cerdded i'r siopau ac yn colli'u hannibyniaeth. Bydd rôl hanfodol gan ThG i gefnogi unigolion gydag Adferiad Ôl-Covid-19 (COVID Hir). Mae pwyslais mawr gan Lywodraeth Cymru ar hawliau pawb i ddarpariaeth Adferiad a Therapi Galwedigaethol a bydd ymyrraeth ar flaen y gad wrth gyflawni hyn.
- 3.7 Mae ymyrraethau ThG yn canolbwyntio ar addasu'r amgylchedd, addasu'r dasg, dysgu sgiliau newydd neu wahanol, addysgu cleientiaid / teuluoedd a staff gofal er mwyn cynyddu cyfranogiad a gweithrediad wrth gyflawni gweithgareddau bob dydd. Mae'r

gwasanaeth ThG yn ymdrin ag ystod eang o faterion. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn ond mae'n rhoi syniad o'r ystod o waith.

- Darparu offer i gadw pobl yn ddiogel ac yn eu cartrefi eu hunain mor annibynnol â phosib;
- Gwneud argymhellion ar gyfer darparu addasiadau addas i'r cartref;
- Darparu asesiadau risg codi a thrin, a darparu hyfforddiant ar ddefnyddio'r offer i deuluoedd a staff gofal;
- Diogelu oedolion a defnyddwyr gwasanaeth bregus;
- Atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty;
- Hwyluso trefniadau gadael yr ysbyty;
- Cefnogi cleientiaid mewn lleoliadau gofal cartref, yn darparu cefnogaeth i staff gofal cartref;
- Cynorthwyo gydag adferiad;
- Anableddau Dysgu;
- Pediatreg.

4. Symud Ymlaen

4.1 Y weledigaeth yw parhau gyda gwaith ThG o alluogi i unigolion fyw mor annibynnol â phosib yn y gymuned a datblygu gwasanaeth rhagweithiol, yn hytrach nag adweithiol. Mae hyn yn heriol oherwydd y niferoedd cyfyngedig o staff ThG.

4.2 Mae yna nifer o ddulliau y gellir eu dilyn fydd yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn cyflawni'r hyn sy'n bwysig i drigolion Gwynedd ac, ar yr un pryd, yn lleihau costau i'r awdurdod lleol wrth symud ymlaen. Os na fyddwn yn gwneud rhywbeth ac yn aros yn ein hunfan, bydd y cynnydd a ragwelir mewn costau gofal oddeutu 15-20% yn fwy na'r gwariant presennol. Yn ogystal â hynny, mae yna risg y bydd unigolion yn mynd yn fwy dibynnol.

4.3 Gofal Digonol a Symud a Thrin

Mae Symud a Thrin wedi cael ei nodi fel maes sydd angen ei wella er mwyn cefnogi unigolion a'r bobl sy'n gofalu amdanynt. Y weledigaeth yw creu swyddi ThG symud a thrin o fewn y Timau Adnoddau Cymunedol. Bydd hyn yn galluogi i berson dynodedig ganolbwyntio ar Ofal Digonol a Symud a Thrin yn Fwy Diogel. Mae'r achosion hyn yn fwy cymhleth ac yn cymryd mwy o amser ond wrth gael eu cyflawni'n effeithiol gallant effeithio'n sylweddol ar ddeilliannau personol unigolion, ac ar arbedion ar becynnau gofal presennol. Mae rhai achosion diweddar yng Ngwynedd wedi dangos arbedion o hyd at £18,000 bob blwyddyn mewn costau gofal ar bob pecyn gofal (gweler yr astudiaeth achos yn Atodiad 1). Gall y swyddi hyn ddarparu mwy o hyfforddiant effeithiol i staff gofal a gofawyr Anffurfiol a darparu cysylltiadau gwell gyda chartrefi gofal nyrsio a phreswyl. Gallant hefyd hwyluso trefniadau gadael yr

ysbyty'n amserol drwy ddilyn unigolion i'r ysbyty, trefnu'r offer a'r hyfforddiant ar gyfer gadael a chynnal asesiad ar ôl gadael yr ysbyty. Bydd hyn yn lleihau niferoedd yr Achosion sy'n Methu â Gadael yr Ysbyty yn sylweddol.

4.4 Ar hyn o bryd, mae ceisiadau'n cael eu gwneud am gyllid ychwanegol i dreialu'r prosiect hwn.

4.5 Adferiad a Galluogi

Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn, ceir pwyslais mawr gan Lywodraeth Cymru ar hyrwyddo hawliau pobl i Adferiad ac rydym yn rhagweld cynnydd o 15-20% yn y galw am y gwasanaeth eleni.

4.6 Bydd y gwasanaeth yn ymdrechu i ganolbwyntio mwy ar rôl alluogi ac adfer y ThG yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae yna fuddion sylweddol o gael gwasanaethau galluogi a arweinir gan therapi lle mae therapyddion yn gweithio'n agos gydag unigolion a darparwyr gofal i osod amcanion cyraeddadwy clir ac i fonitro deilliannau. Mae'r gwasanaeth ThG yn gweithio gydag un asiantaeth gofal ar hyn o bryd i beilota'r ffordd hon o weithio ac mae canlyniadau cychwynnol yn gadarnhaol.

4.7 Atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty a hwyluso trefniadau gadael yr ysbyty'n amserol (gadael i asesu)

Ein nod yw cadw pobl i fyw adref yn annibynnol ac yn ddiogel yn hirach. Mae rôl hollbwysig gan ThG i gyflawni'r nod hwn ac wrth weithio'n agos gydag ysbytai i sicrhau bod unigolion yn gallu dychwelyd adref cyn gynted â phosib ar ôl bod yn wael. Byddwn hefyd angen mynediad cyflym at offer addas. Mae adolygiad o'r ddarpariaeth offer ar draws Gogledd Cymru wedi cael ei oedi oherwydd y pandemig. Yn y cyfamser, mae Gwynedd wedi gweithio'n agos gyda Byw Bywyd i sicrhau bod offer yn cael ei ddanfôn yn amserol i bob rhan o'r sir.

4.8 Mae ymglymiad ThG wedi bod yn hanfodol mewn cynllun peilot yng ngogledd Gwynedd yn ystod y pandemig, yn gweithio'n agos gydag Ysbyty Gwynedd ac Asiantaeth Gofal Seibiant i hwyluso trefniadau gadael yr ysbytai'n amserol ac i ddarparu cefnogaeth galluogi byrdymor i unigolion.

4.9 Yn y pen draw, bydd Therapyddion Galwedigaethol yn chwarae rhan hanfodol wrth siapio ein hawdurdod lleol wrth symud ymlaen. Ein gweledigaeth yw bod yr Awdurdod Lleol gorau yng Nghymru o ran ei ddarpariaeth ThG a chyflawni'r Hyn sy'n Bwysig.

Atodiad 1

Darlun y cleient - JW

Gofynion y Client

Darlun y Client

- Cleient yn wybyddus i ThG Gwasanaethau Cymdeithasol ers sawl blwyddyn
- Wedi mynd i'r ysbyty
- ThG Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweithio gyda ThG yr ysbyty i ddatrys problemau gyda chodi a thrin y cleient ac wedi trefnu addasiadau yn y cartref.
- ThG Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynorthwyo gyda threfniadau gadael yr ysbyty drwy gyfarfod yr ambiwlans i helpu gyda mynediad ac wedi helpu'r Gofalwyr gyda'u dau ymweliad cyntaf.
- Gwaith parhaus i wella symud a thrin a gweithio ar ei nodau eraill.

Amgylchiadau blaenorol cyn ymglymiad

Cyn mynd i'r ysbyty

Roedd J yn byw ar ei phen ei hun mewn byngalo. Roedd ganddi anawsterau symudedd ers amser hir oherwydd ei gordewdra a phroblemau iechyd eraill. Roedd bob amser wedi ceisio bod mor annibynnol â phosib. Roedd yn gallu mynd i'r toiled yn annibynnol a cherdded o gwmpas ei byngalo. Dim ond unwaith yr wythnos oedd J angen gofalwr i'w helpu i gael cawod. Roedd rhwydwaith cefnogi da gan J; nith oedd yn byw gerllaw. Roedd yn mwynhau gwneud crefftiau gwahanol a threulio amser gyda phlant ei nith. Roedd ThG Cyngor Gwynedd yn ei hadnabod yn dda ar ôl gweithio gyda hi o'r blaen i addasu ei hystafell ymolchi, ei chadair bwrpasol (*raiser-recliner*) a darparu cymhorthion iddi fynd i mewn ac allan o'r gwely.

Y digwyddiad allweddol

Disgynnodd J a thorri ei bawd a'i hasennau ym mis Ebrill 2020. Bu yn yr Ysbyty tan ddiwedd mis Mai ac yna cafodd ei throsglwyddo i ysbyty cymunedol. Gweithiodd ffisiotherapyddion yn galed i ddarparu adferiad iddi ond cyfyngwyd ar y cynnydd oherwydd y lefelau isel o ocsigen yn ei gwaed a'i hiechyd gwael yn gyffredinol. Ni lwyddodd J i roi pwysau eto, dim ond eistedd mewn cadair am ychydig oriau yr oedd yn gallu ei ddiodef.

Roedd yn heriol gofalu am J ar y ward oherwydd ei maint. Roedd pedwar aelod o staff yn aml yn cael eu defnyddio i'w rollo ar y gwely. Roedd prif nyrs y ward yn awyddus i beidio oedi trefniadau iddi adael yr ysbyty; roedd yn cymryd lle cyfan ar gyfer 4 gwely.

Beth sydd yn bwysig iddynt

Yn anad dim, mynd adref o'r ysbyty cyn gynted â phosib oedd yn bwysig i J. Roedd hefyd yn bwysig iddi barhau i fod â rheolaeth dros ei chynlluniau gadael yr ysbyty. Roedd angen ei chynnwys wrth wneud yr holl benderfyniadau a'i hysbysu'n llawn o'r hyn oedd yn digwydd. Roedd J eisiau sicrhau ei bod yn gallu cael yr un asiantaeth gofal ag yr oedd wedi'i chael cyn mynd i'r ysbyty oherwydd roedd yn eu hystyried yn ffrindiau iddi. Roedd eisiau cael ei thrin gydag urddas a ddim eisiau gweld ei gofalwyr yn brwydro i reoli ei phwysau.

Canlyniad

Be wnaethon nhw/ni

Cydweithio gyda ThG yr ysbyty a gwaith amlasiantaethol arall

ThG Cymunedol wedi cynnig helpu ThG yr ysbyty. Roedd ThG yr ysbyty yn ddiolchgar o'r cymorth, yn enwedig am ei bod yn newydd i'r rôl ar ôl cael ei secondio i weithio yn yr ysbyty yn ystod ton gyntaf Covid-19. Roedd y ThG cymunedol yn teimlo y byddai ei gwybodaeth am bersonoliaeth ac amgylchedd cartref J yn ei helpu i gyrraedd ei nod o gael mynd adref yn ddiogel cyn gynted â phosib.

Addasiadau

Mehefin 2020 - Cynhaliodd y ThG Cymunedol ymweliad ar y cyd gyda ThG yr ysbyty i fyngalo J i weld pa addasiadau fyddai eu hangen. Daethpwyd i'r casgliad y byddai J angen trac nenfwd gyda phedwar bar gwasgaru, yn y lolfa, i'w galluogi i gael ei hoistio i'w chadair. Ar ôl trafodaeth gyda J, cytunwyd y byddai'n well iddi gael gwely bariatrig yn y lolfa yn hytrach nag addasu ei hystafell wely. Roedd disgwyl i J dreulio dipyn o amser yn y gwely ac roedd yn credu y byddai'n ffafrio bod yn rhan flaen y tŷ a gallu gwyllo ei theledu.

Yn yr wythnosau dilynol, trefnodd y ThG cymunedol ymweliadau ar y cyd i drefnu manylion yr addasiadau, a fyddai'n cael eu talu amdanynt gyda Grant Addasiad Ffisegol. Roedd ymweliadau ar y cyd yn cynnwys y ThG o'r cwmni anabled lleol a'r swyddog o Canllaw oedd yn gweithio i'r asiantaeth dai. Yn ogystal â'r hoist trac nenfwd, cafodd drws yr ystafell wely ei newid yn ddrws dwbl a chafwyd gwared ar y cwpwrdd parhaol er mwyn gwneud yr ystafell yn fwy. Cafodd llawr caled newydd ei osod er mwyn gwneud y dasg o symud y gwely'n haws ac yn fwy diogel i'r gofalwyr. Cafodd J ddiweddariadau llawn wrth i'r ThG cymunedol siarad â hi ar ei ffôn symudol.

Un o'r prif broblemau oedd cael J i mewn drwy'r drws ffrynt. Sylweddolwyd bod cadair olwyn J yn rhy llydan i ffitio drwy'r drws. Yr unig ffordd i'w chael hi drwodd oedd tynnu'r drws oddi ar ei golynnau. Yn anffodus, ni lwyddwyd i ledu'r drws oherwydd strwythur yr adeilad. Mae gan J hawl i allu cael mynediad i'w chartref yn ddiogel. Gallai ffenestr yr ystafell fyw fod wedi cael ei newid yn ddrysau gwyr er mwyn rhoi mynediad llawn i'w chadair olwyn. Gallai hyn fod wedi cael ei drefnu mewn modd amserol gan fod yr holl asiantaethau perthnasol yn awyddus iawn i helpu. Fodd bynnag, roedd J yn benderfynol nad oedd eisiau hyn. Roedd yn bwysicach iddi hi gael cadw'r ffenestr fel ag yr oedd. Mae'n hoffi eistedd wrth y ffenestr gyda'i holl bethau'n drefnus ar y silff, a phasio'r allwedd drwy'r ffenestr i ymwelwyr. Mae cael ei holl bethau o fewn

cyrraedd ei chadair bob amser wedi bod yn hynod bwysig i J. Roedd gan J y gallu i wneud y penderfyniad hwn er bod gweithwyr proffesiynol yn teimlo bod hyn efallai yn annoeth. Roedd J yn bendant mai dyma oedd ei phenderfyniad. Cafodd y gwasanaeth tân a'r gwasanaeth ambiwlans wybod am y sefyllfa.

Symud a Thrin

Aeth y ThG Cymunedol i'r ysbyty i helpu ThG yr ysbyty i ddewis ac asesu sling addas. (Y rheswm dros hyn oedd bod ThG yr ysbyty yn brin ei hyder oherwydd ei bod yn newydd yn y swydd a bod ei chydweithwyr yn hynod brysur). Roedd maint mawr J yn golygu nad oedd sling safonol yn anaddas.

Roedd symud J ar y gwely yn anodd iawn oherwydd ei maint. Er mwyn cael pecyn gofal iddi, roedd angen lleihau nifer y gofalwyr fyddai eu hangen ar gyfer pob galwad i ddau. Trefnodd y ThG Cymunedol asesiad gyda'r Vendlet; roedd yr asesiad hwn yn cynnwys cynrychiolydd o wasanaeth offer, y ThG cymunedol, ThG yr ysbyty, staff y ward. Mae'r Vendlet yn cynnwys rholiau sydd wedi'u hatodi ar bob ochr y gwely sy'n codi a gostwng. Maent yn galluogi i berson gael ei rollo wrth i'r gynfas gael ei weindio ar y rholiau. Mae'n mynd â'r straen corfforol oddi ar y gofalwyr. Roedd J wrth ei bodd â'r Vendlet, dywedodd '*bloody brilliant*'. Roedd yn ei symud mewn ffordd urddasol a diogel. Roedd yn llawer mwy cyfforddus na chael ei throï gan ofalwyr.

Trefnwyd y pecyn gofal gyda gofalwyr mewnol y Cyngor; y gofalwyr y mae J yn eu hadnabod ac mor awyddus i'w cael. Mae'r gofalwyr hyn yn brofiadol iawn o ran defnyddio'r Vendlet, felly roedd hyn yn gymorth mawr.

Gadael yr ysbyty - 28 Gorffennaf 2020

Ar ddiwrnod gadael yr ysbyty, fe wnaeth y ThG cymunedol gyfarfod J wrth iddi gyrraedd adref. Roedd yn hapus iawn cael bod adref.

Gwaith parhaus.

Mae'r ThG cymunedol wedi parhau i weithio gyda J ers iddi adael yr ysbyty i helpu i'w chadw'n ddiogel a chyfforddus ac i'w helpu i gyflawni ei nodau. Mae sicrhau bod J yn parhau yn ganolog i'r holl ymyraethau mor bwysig ag erioed. Mae'r holl waith wedi cael ei wneud ar y cyd â J a'r gofalwyr. Mae'r ThG cymunedol mewn cysylltiad rheolaidd â'r Nyrsys Ardal a'r goruchwyliwr gofal. Mae'r sling a'r gadair wedi cael eu newid fel ei bod yn fwy cyfforddus ac yn gallu dioddef eistedd allan yn hirach. Byddai hyn yn rhoi mwy o gyfle i J gymryd rhan mewn gwaith crefftau a gweithgareddau eraill sy'n rhoi boddhad iddi.

Potensial y canlyniad yn yr hen drefn

Myfyrdod:

Elfennau cadarnhaol am y dull gweithio

Anaml iawn y mae ThG y Cyngor yn mynd i'r ysbytai i helpu gyda threfniadau gadael yr ysbyty gan mai cyfrifoldeb ThG yr ysbytai yw hyn. Fodd bynnag, byddai ThG y Cyngor fel arfer yn rhan o hyn pan fyddai angen mwy o addasiadau mawr. Arweiniodd y cydweithio yn yr achos hwn at sawl elfen gadarnhaol

- Cysondeb gofal da ac yn canolbwyntio ar y cleient.

Fe wnaeth fy ngwybodaeth am gymeriad J a beth sydd wedi bod yn bwysig iddi dros y blynyddoedd diwethaf fy helpu i ddeall ei sefyllfa yn well. Gwyddwn mai'r unig ffordd i symud ymlaen â'r achos oedd sicrhau mai hi oedd wrth y llyw. Mae J bob amser wedi bod yn gyndyn o gymryd cyngor ond pan fydd yn gallu bod yn rhan o benderfyniad, gall cymryd perchnogaeth ohono a gall fod yn benderfynol iawn o wneud pethau weithio.

- Rhannu llwyth gwaith.

Roedd ThG yr ysbyty yn ymdrin â sawl achos brys ac roedd angen iddynt fod ar y ward. Gan fy mod wedi fy lleoli mewn swyddfa (yn gweithio gartref), roeddwn mewn lle da i wneud y gwaith ymchwil eang oedd ei angen drwy chwiliadau ar y we, galwadau ffôn ac e-byst er mwyn datrys problemau ynglŷn â'r achos.

- Gweithio amlasiantaethol agos.

Gan fy mod yn brofiadol mewn gweithio yn y gymuned a threfnu addasiadau, roeddwn yn gallu cysylltu â'r bobl berthnasol i alluogi i'r gwaith gael ei gwblhau mewn modd amserol. Fe wnaeth pawb oedd yn ymwneud â'r achos fynd y tu hwnt i'r disgwyl i helpu J. Fe wnaeth pob un ohonynt ei gwneud yn flaenoriaeth uchel a chael gwared ar fiwrocratiaeth lle bo'n briodol er mwyn cyflawni'r dasg yn gynt.

- Gwaith tîm da gyda Siopau.

Roedd yn rhwystredig gorfod cwblhau ffurflenni hirfaith i ofyn am bob darn o offer gan siopau. Fodd bynnag, gyda chostau mawr ar rai eitemau, gallaf weld pam eu bod angen y cyfiawnhad llawn. Roedd E-banel siopau yn effeithiol ar gyfer torri ar amser cyn i banel wneud penderfyniad. Fe wnaeth y trefniant rhwng Siopau a Byw Bywyd i ddanfôn offer, ac i ffitio a gwasanaethu'r Vendlet, fy helpu i drefnu popeth i fod yn barod ar yr un pryd.

Arweiniodd yr elfennau cadarnhaol yn y ffordd o weithio at ddeilliant cadarnhaol i J: cyflawnodd ei nod o gael dod adref heb ormod o oedi. Mae gan J y gofalwyr yr oedd hi eu hangen, sy'n darparu gofal gwyh. Mae'r Vendlet a'r hoist trac nenfwd wedi lleihau'r straen yn sylweddol ar ofalwyr ac, o ganlyniad, gall J edrych ymlaen at eu hymweliadau heb boeni ei bod yn mynd i'w niweidio.

Bu elfen gadarnhaol o ran arbediad cost. Costau gofal £23 / awr am un gofalwr. Byddai angen 4 gofalwr ar gyfer pob galwad heb y Vendlet. Byddai angen oddeutu 2 awr 30 munud y dydd. Dros wythnos, byddai ei bil gofal yn £1,610. Gyda'r Vendlet, gellir lleihau'r gofal i £805 / wythnos. Talodd y Vendlet amdano'i hun mewn llai na 14 wythnos.

Mae mwy o waith i'w wneud o hyd a disgwyliaf barhau i weithio gyda J am amser hir, yn ei chefnogi wrth i'w hanghenion newid.

Beth allai fod wedi cael ei wneud yn well?

Petai'r ysbyty wedi derbyn y cynnig ThG yn gynt, efallai y byddem wedi llwyddo i gael J adref ryw wythnos neu ddwy yn gynt. Fodd bynnag, efallai y byddai hyn wedi bod yn afrealistig oherwydd roedd yn dal i gael sesiynau adfer; efallai y byddai wedi bod yn rhy gynnar gweld sut fyddai gallu gweithredol J wrth iddi adael yr ysbyty.

